CYFRES C6

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th

DARLLENWCH
1 Samuel 1: 1-28

ADNOD
ALLWEDDOL
Mathew 6: 5-8

Astudiaeth 1 Samuel – Gweddïo ar Dduw

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Salm 44: 21 Luc 1: 5-25 1 Timotheus 2: 1-3 ac 8

Mae llyfr cyntaf Samuel yn cofnodi'r newid yn Israel o gyfnod y Barnwyr i deyrnasiad y Brenhinoedd. Samuel oedd yr olaf o'r barnwyr mawr ac ef hefyd oedd un o broffwydi enwocaf Israel. Ar ddechrau'r llyfr hwn cawn grynodeb byr o hanes teulu Samuel a'r hyn a ddigwyddodd yn union cyn ei eni.



GRID GEIRIAU

1. Mam Samuel.
2. Tad Samuel.
3. Byddent yn mynd i Seilo bob _____ .
4 a 5. Y ddau beth a wnaent yno.
6 a 7. Enwau dau fab Eli.
8. Eu gwaith neu swyddogaeth.

C **Ad-drefnwch y llythrennau yn y sgwariau llwyd i ffurfio enw un o wragedd Elcana.**

C **Sut oedd hon yn ymddwyn tuag at Hanna?**

C **Pam oedd hi'n gwneud hyn?**

C **Ym mha ddwy ffordd yr ymatebodd Hanna?**

1 **2**

4

3

2

Ni fwriadodd Duw erioed i ddyn gael mwy nag un wraig; edrychwch ar Genesis 2:24. Mae'r gystadleuaeth a'r eiddigedd parhaus rhwng gwragedd Elcana yn darlunio un rheswm da dros hyn!

C **Pam yr aeth Hanna i Dŷ'r Arglwydd?**

1

Gwyddai mai dim ond un Person a allai ei helpu ac roedd yn awyddus i weddïo Arno. Doedd dim angen iddi lefaru ei geiriau'n hyglyw.

C **Edrychwch ar adran olaf Salm 44: 21. Beth mae'r adnod hon yn ei ddweud wrthym am Dduw?**

1

Yn yr Adnodau Allweddol, mae'r Arglwydd Iesu yn dysgu Ei ddisgyblion am weddi.

"Cofiwch"/"Peidiwch" – pa bethau pwysig y dylid eu cofio wrth weddïo?

PEIDIWCH

C **"Peidiwch â gweddïo fel y rhagrithwyr". Pam?**

1

C **"Peidiwch â gweddïo fel y Cenhedloedd neu'r paganiaid". Pam?**

1

COFIWCH

C **Sut ddylen ni weddïo?**

2

Gwnaeth Hanna adduned (addewid difrifol) i Dduw.

C **Pa ddau beth addawodd hi i Dduw y byddai'n eu gwneud pe bai Ef yn ateb ei gweddi a rhoi iddi fab?**

2

Roedd gweddi Hanna rhyngddi hi a Duw. Yn anffodus, cyhuddodd Eli hi o fod wedi meddwi.

C **Beth ddywedodd hi wrtho? (adnod 16)**

1

C **Beth ddywedodd Eli wrth Hanna wedi iddo sylweddoli nad oedd hi'n feddw?**



1

Atebodd Duw weddi Hanna a ganwyd mab iddi.

C **Beth barodd iddi roi'r enw Samuel ar y bachgen?**

1

Erbyn i Samuel gael mynd i Seilo, roedd y bachgen yn ddigon hen i'w adael gydag Eli.
Felly, yn unol â'i haddewid, cyflwynodd Hanna ei mab i Dduw er mwyn i'r bachgen wasanaethu yn Nhŷ'r Arglwydd. Roedd Hanna, gallem dybio, wedi gwneud mwy na digon i ddangos ei bod yn ddiolchgar ond daeth ag offrwm gyda hi hefyd fel ffordd o ddweud "Diolch" wrth Dduw.
Pa mor aml fyddwch chi'n cofio dweud diolch wrth Dduw pan fydd Ef yn ateb eich gweddïau?

Enw _____

DARLLENWCH
1 Samuel 2: 1-36

ADNOD
ALLWEDDOL
1 Samuel 2: 30

Astudiaeth 2 Samuel – Cynyddu gerbron Duw

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Salm 103: 1-5 Luc 2: 40-52 Iago 1: 14-16

Yn yr astudiaeth hon, byddwn yn dysgu am y pum prif gymeriad yn ein Darlleniad o'r Beibl.

HANNA

Mae gweddi Hanna yn llanw deg adnod gyntaf y bennod hon. Clywn hi'n moli Duw am yr hyn a wnaeth Ef. Aiff Hanna yn ei blaen i ddisgrifio sut y gall yr Arglwydd newid amgylchiadau person yn llwyr.

C Rhowch un enghraifft o hyn o weddi Hanna? 1

C Sonnir am Hanna eto yn adnodau 19-21. Beth fyddai hi'n ei roi i Samuel bob blwyddyn? 1

C Sawl plentyn arall gafodd Hanna yn y diwedd? 1

SAMUEL

Wrth i'r blynyddoedd fynd yn eu blaen, roedd Samuel yn tyfu.

C Chwiliwch am ddwy adnod sy'n dweud hyn wrthym. 1

Adnod ..... ac Adnod .....

Ond nid ei gorff yn unig oedd yn tyfu!

C Darllenwch Luc 2: 40 a 52 sy'n adrodd am ddatblygiad y bachgen Iesu.
Chwiliwch am frawddeg debyg sy'n cael ei defnyddio i ddisgrifio Iesu a Samuel. 2

Mae tyfu neu "gynyddu gerbron Duw" yn bwysig iawn ym mywyd Cristion.

C Yn ôl 1 Pedr 2:2, ar beth y dylai Cristion fwydo os yw ef neu hi am dyfu? 1

Roedd Samuel, mae'n amlwg, yn blentyn eithriadol a chanddo gymeriad hynaws. Mae ef yn enghraifft o'r math o berson y mae Duw am i ninnau fod. Roedd y gwrthgyferbyniad rhyngddo a dau fab Eli yn drawiadol.

HOFFNI a PHINEES

C **Ysgrifennwch GWIR neu ANWIR er mwyn dod i wybod am eu cymeriad a'u hymddygiad a nodwch rif yr adnod i gadarnhau eich ateb:-**

Doedden nhw ddim yn adnabod yr Arglwydd. ..... Adnod .....

Roedden nhw'n byw bywydau sanctaidd. . ..... Adnod .....

Anufuddhaodd y ddau i'w tad. ..... Adnod .....

6

C **Beth ddywedodd yr Arglwydd fyddai'n digwydd iddynt?**

1

Dyma farn Duw arnynt oherwydd eu pechod mawr. Gallwch ddarllen yr hanes ym Mhennod 4: 11.

ELI

Ni fedrai Eli atal pechod ei feibion.

CHWILAIR

Atebwch y cliwiau canlynol a rhowch gylch o'u cwmpas yn y Chwilair. Maent yn ymddangos i fyny, i lawr, ymlaen, tuag yn ôl ac yn groeslinol.

1. Roeddent yn aberthu yn y fan hon. .....
2. Swyddogaeth Eli. .....
3. Trigai Elcana yma. .....
4. Roedd Samuel yn gwasanaethu gerbron yr .....
5. Cafodd Hoffni a Phinees eu barnu am hyn .....

A	O	L	I	E	S	S	D
M	R	Y	R	E	M	A	O
A	Rh	G	A	I	I	S	Ch
R	T	D	L	R	O	S	E
S	Y	N	I	W	F	Y	P
A	N	E	Rh	Y	Y	D	E
Dd	Ff	U	L	A	A	Dd	N
O	Rh	Y	D	E	Dd	A	F

5

C **Gan ddechrau gyda'r llythyren sydd â chylch o'i chwmpas, symudwch o'r chwith i'r dde drwy'r Chwilair a chwiliwch am y geiriau a ddywedodd yr Arglwydd wrth Eli drwy ŵr Duw. (adnod 30)**

1

Gwireddwyd hyn ym mywydau Samuel a Hanna, ond nid yn hanes meibion pechadurus ac anufudd Eli. Mae hon yn wers bwysig i ni gyd i'w dysgu a'i chofio.

Enw _____

DARLLENWCH
1 Samuel 3: 1-21

ADNOD ALLWEDDOL
1 Samuel 3: 10

Astudiaeth 3 Samuel – Gwrando ar Dduw

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Exodus 3: 1-22 Job 33: 14-18 Luc 6: 46-49

Os oedd Samuel yn mynd i wasanaethau Duw yn llwyr, rhaid iddo fedru adnabod llais Duw pan fyddai'r Arglwydd yn siarad ag ef. Gallwn dybied y byddai llais Duw yn hyglyw a chlir bob tro ac nad oedd modd i neb fyth ei gamgymryd am lais rhywun arall. Nid felly y mae bob tro, serch hynny. Methodd hyd yn oed Samuel ar y dechrau i ddeall mai Duw oedd yn galw arno.

C **Llais pwy dybiai Samuel iddo glywed?**

1

Ni ddylem synnu iddo wneud camgymeriad. Wedi'r cyfan, roedd yn dal yn ddim mwy na bachgen, ac nid oedd wedi cael profiad fel hwn erioed o'r blaen. Roedd yr Arglwydd yn ei alw wrth ei enw! Dylem ni gyd gofio bob amser fod pob un ohonom yn unigolion yng ngolwg Duw a'i fod Ef yn gwybod y cyfan amdanom!



CHWILAIR

Atebwch y cwestiynau hyn yn y bylchau isod. Yna, rhowch gylch o gwmpas pob ateb yn y Chwilair. Maent wedi eu cuddio ymlaen, tuag yn ôl, i fyny, i lawr neu'n groeslinol.

1. Beth oedd yn dal i losgi? .....
2. Sawl gwaith y galwodd yr Arglwydd ar Samuel? .....
3 a 4. Pa DDAU beth na allai fyth wneud iawn am ddrygioni tŷ Eli? ..... ac ..... .
5. Tan pryd y gorweddodd Samuel yn ei wely? .....
6. Pan gododd, beth agorodd e? .....
7. Roedd arno ofn dweud beth wrth Eli? .....
8. Gwyddai holl Israel mai ..... oedd Samuel.
9. Ble'r ymddangosodd yr Arglwydd unwaith eto? .....

Dechrau wrth Ll →

→	G	(Ll)	E	D	R	Y	S	A	U	F	O
	Y	W	N	A	C	N	A	R	A	L	Ff
	A	B	E	R	Th	I	R	Ch	O	N	R
	S	A	Y	L	G	Ff	M	P	A	E	W
	L	T	M	I	E	D	E	Y	D	A	M
	O	Ph	S	A	W	D	L	Y	U	B	U
	L	Y	N	S	A	F	I	N	U	B	P
	I	S	N	I	O	O	D	G	U	O	M
	E	P	R	N	A	R	W	G	A	R	A
	S	E	D	O	C	Ff	W	U	Ll	E	L
	G	P	D	Y	W	Ff	O	R	P	E	Th

9

C **Nawr, dilynwch y saethau a dewiswch rai o'r llythrennau sy'n weddill i ffurfio neges.**

1

C **Pwy ddywedodd y geiriau hyn ac wrth bwy?**

1	2

2

Dywed y geiriau hyn wrthym fod y bachgen Samuel nid yn unig yn barod i wrando ar Dduw, ond hefyd i ufuddhau i'w eiriau Ef, oherwydd mae'n disgrifio'i hun fel "gwas Duw". Fyddwn ni'n rhoi cyfle i Dduw siarad â ni drwy Ei Air, y Beibl, neu weithiau drwy rywun sy'n esbonio'r Beibl i ni? A oes gyda ni awydd mawr i'w glywed Ef yn siarad â ni? Efallai bod arnom ofn beth fydd Ef yn gofyn i ni ei wneud o bosibl! Os ydym ni'n "weision" Iddo mewn gwirionedd, rhaid i ni ufuddhau i'w orchmynion!

C **Darllenwch Luc 6:46 ac ysgrifennwch beth ddywedodd yr Arglwydd Iesu am hyn.**

2

Doedd Samuel ddim yn hapus ynglŷn â'r hyn ddywedodd Duw wrtho.

C **Darllenwch adnodau 11-14 ac ysgrifennwch frawddeg i grynhoi'r hyn ddywedodd yr Arglwydd wrth Samuel.**

1

Er bod y newyddion yn ddrwg i Eli, roedd yn ddigon doeth i wybod mai Duw oedd wedi rhoi'r neges i Samuel.

C **Beth ddywedodd Eli ar ôl iddo glywed neges Duw gan Samuel?**



1

Wrth i'r blynyddoedd fynd rhagddynt, tyfodd Samuel yn ddyn, a byddai Duw yn aml yn siarad ag ef, a thrwyddo ef, wrth y genedl. Dechreuodd pobl sylwi pa mor wir a dibynadwy oedd ei eiriau. Ni adawodd Duw "i'r un o'i eiriau fethu." (adnod 19)

C **Llanwch y geiriau sydd ar goll yn y frawddeg hon.**

"Sylweddolodd Israel gyfan, o ..... hyd ..... fod Samuel wedi ei sefydlu'n ..... i'r Arglwydd."

3

Felly, daeth Samuel yn un o ddynion mawr Duw! Mor wahanol fyddai ei fywyd pe na bai wedi ateb galwad Duw pan oedd yn fachgen! Mae Duw'n dal i siarad â phobl ifanc – yn union fel chi! A yw Ef yn eich galw chi HEDDIW i droi ato Ef, ac i adael Iddo lywio eich bywyd chi? Cofiwch, bydd yr ateb a rowch yn cael dylanwad ar eich bywyd ar y ddaear yn ogystal â'ch tynged dragwyddol!
"Heddiw cewch wybod ei rym, os gwrandewch ar ei lais. Peidiwch â chaledu'ch calonnau."
Salm 95:7 ac 8

Enw _____

DARLLENWCH
1 Samuel 8: 1-10
9: 1-27 10: 1

ADNOD
ALLWEDDOL
1 Samuel 9: 6

Astudiaeth 4 Samuel – Gweithio dros Dduw

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
1 Samuel 11: 1-13 Salm 15 1 Timotheus 6: 10

Aethai llawer o flynyddoedd heibio ers i Samuel fod yn fachgen ac yn un a gynorthwyai Eli yn Nhŷ'r Arglwydd. Erbyn hyn, mae'n hen ŵr a chanddo feibion sy'n ddynion mewn oed. Yn anffodus, nid oedd ei feibion yn dilyn esiampl eu tad.

PROFFIL CYMERIAD

1. TAD Enw: Samuel

C **Yn yr Adnod Allweddol, sut un oedd Samuel yn ôl gwas Saul?**

1

2. MEIBION Enwau: Joel ac Abeia

C **Enwch DDAU gamwedd (arferion drwg) roedd y ddau yn euog ohonynt.**

2

'Dyw pethau fymryn gwahanol heddiw! Mae llawer o bobl, hyd yn oed heddiw, yn crwydro oddi wrth Dduw oherwydd trachwant ac anonestrwydd!

C **Darllenwch ac ysgrifennwch yr hyn sydd gan 1 Timotheus 6:10 i'w ddweud am "gariad at arian".**

2

Daeth holl henuriaid Israel at Samuel yn Rama i ofyn iddo benodi brenin i deyrnasu drostynt.

C **Pa DDAU reswm a roddwyd ganddynt dros gael brenin?**

2

Roedd gofyn am frenin dynol yn gam yn y cyfeiriad anghywir yn hanes Israel, gan fod hynny'n dangos eu bod mewn gwirionedd yn gwrthod Duw fel eu Brenin. Edrychwch ar Bennod 8:7. Mae rhybudd yma i bob un ohonom! Rhaid i ni fod yn ofalus nad ydym yn gadael i neb, na dim, gymryd y lle hwnnw yn ein bywydau sydd wir yn eiddo i Dduw.



1

C **Pan glywodd Samuel eu cais, beth wnaeth e?**

2

C **Darllenwch yn ofalus adnodau 7-9 ym mhennod 8 ac ysgrifennwch frawddeg i grynhoi'r ateb roddodd Duw i Samuel.**

Mae pennod 9 yn adrodd yr hanes am sut y cyfarfu Samuel â Saul, y dyn a oedd i ddod yn frenin cyntaf Israel.



CROESAIR

Mae'r Croesair hwn wedi ei seilio ar y stori gyfan. Chwiliwch drwy bob un o'r Darlleniadau o'r Beibl am yr atebion i'r cliwiau.

AR DRAWS

1. Tad-cu neu Daid Saul.
4. Eneiniwyd y rhan hon o gorff Saul.
5. Gwahoddwyd oddeutu ..... o wahoddedigion.
7. Roedd yr Israeliaid yn dymuno cael un o'r rhain!
9. Yn y lle hwn, awgrymodd Saul wrth ei was y dylent fynd adref.
11. Nifer meibion Samuel.
13. Gofynnodd Samuel i'r person hwn ddod â'r bwyd arbennig i Saul.
14. Defnyddiodd Samuel hwn i eneinio Saul.

8

I LAWR

2. Penododd Samuel ei feibion i swydd ..... yn Israel
3. Tad Saul.
5. Nid fi!
6. Gair arall am broffwyd.
8. Gwnaeth Samuel hyn i Saul.
10. Daeth yr Arglwydd â'r Israeliaid allan o'r wlad hon.
12. Mab hynaf Samuel
15. Aeth Saul ag .... gwas gydag ef

2

C **Cofnodwch yn y blwch DDWY ffaith am ymddangosiad Saul.**

1

2

Mae ein gwedd a'n diwyg YN bwysig! Ond, NID dyma'r peth mwyaf hanfodol! Mae'r HYN YDYM NI yn llawer pwysicach na sut OLWG sydd arnom. Mae Duw "yn gweld beth sydd yn y galon." (1 Samuel 16:7) Wrth i'r astudiaeth hon ddod i ben, gwelwn Samuel, fel erioed, yn gwasanaethu Duw yn ffyddlon ac yn ufuddhau Iddo. Roedd yn galaru am ymddygiad ei feibion. Nid oedd yn hapus chwaith am fod y bobl yn mynnu cael brenin, ond ni adawodd i'r pethau hyn ei rwystro rhag gwneud yr hyn roedd Duw am iddo'i wneud yn ei fywyd. Dyma'r her i bob un ohonom:-

cyfanswm

A ydw i o ddifrif yn ymroi i ufuddhau i Dduw a'i wasanaethu, fel roedd Samuel?

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH % 01766 819120